North Wales **Together**
Gogledd Cymru **Gyda'n Gilydd**

*Seamless services for people with Learning Disabilities*
*Gwasanaethau ddi-dor i bobl ag Anableddau Dysgu*

## SUT I'M TRIN YN DDA

**Dylid trin pob unigolyn gyda pharch ag urddas**

“mae fy mharchu i yn golygu parchu fy ngofod, fy mhethau, fy mhenderfyniadau a'm perthnasoedd”

“gwrandwch arnaf, a threuliwch amser yn dod i'm hadnabod!”

“Byddwch yn glên”

### AWGRYMIADAU GWYCH

- Dylid cyfathrebu mewn modd agored, cyson a syml
- Peidiwch â defnyddio jargon
- Dylid diogelu a pharchu gwybodaeth bersonol a chyfrinachol pobl
- Dylid defnyddio hiwmor mewn modd priodol
- Dylid gwirio sut y dymuna bobl gael eu cyfeirio atynt
- Byddwch yn brydlon a gweithredwch ar unrhyw gamau yr ydych wedi dweud y byddwch yn eu cymryd

## GADEWCH IMI REOLI FY MYWYD FY HUN

**Mae llais, dewis, rheolaeth ac annibyniaeth wrth wraidd popeth a wnawn.**

Rydym yn ymhyfrydu mewn gweithio ar y cyd.

“Hoffwn gael dewis lle hoffwn i fyw a phwy sy'n byw gyda mi”

“Helpwch fi i wneud yr hyn yr wyf yn ei ddymuno, a gwrandwch arnaf”

“Mae arnaf eisiau teimlo'n bwysig a gallu gwneud penderfyniadau fy hun”

### AWGRYMIADAU GWYCH

- Dylid grymuso, annog a galluogi pobl sydd angen gofal a chefnogaeth i wneud pethau drostynt eu hunain ac i wneud eu penderfyniadau eu hunain.
- Dylid cefnogi unigolion i wneud y gorau o'u penderfyniadau a'u rheolaeth dros eu bywydau.

## HELPWCH FI I GYRRAEDD FY MHOTENSIAL

**Rydym yn darparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan roi'r unigolyn wrth wraidd popeth a wnawn a'i helpu i gyrraedd eu potensial.**

“dysgwch gennyf, a cheisiwch gydnabod fy nghryfderau”

“helpwch fi i ddysgu pethau newydd”

“rhowch ddigon, ond nid gormod o gefnogaeth imi”

### AWGRYMIADAU GWYCH

- Byddwch yn barod i gymryd risgiau cadarnhaol, gan esbonio canlyniadau risgiau yn glir i eraill.
- Ceisiwch fynd i'r afael â phroblemau newydd a phroblemau sy'n datblygu yn greadigol
- Peidiwch â meddwl am gamgymeriadau fel rhywbeth negyddol, meddyliwch amdanynt fel cyfle i ddysgu a thyfu
- Byddwch yn gynnes, yn garedig, yn empathig, yn ddibynadwy ac yn dosturiol yn eich gweithredoedd

## BYDDWCH YN ONEST

**Rydym bob amser yn onest ac yn dryloyw ac nid oes arnom ni ofn dweud pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le.**

Rydym yn hunanymwybodol ac yn myfyrio'n rheolaidd ar y gwaith yr ydym yn ei wneud, sut rydym yn ei wneud a'r effaith yr ydym yn ei chael ar y rhai sy'n cael eu cefnogi.

“Mae arnaf eisiau i bobl fod yn onest â mi, a dweud y gwir wrthyf”

### AWGRYMIADAU GWYCH

- Rydym yn dysgu gan eraill ac yn rhannu gwybodaeth ac arfer orau.
- Ceisio adborth gan gydweithwyr, defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd, myfyrio arno a dysgu oddi wrtho
- Bod yn ddigon dewr i godi eich llais a herio eraill lle mae ganddyn nhw bryderon am ansawdd neu ddiogelwch y gofal sy'n cael ei ddarparu.